

Cylchlythyr Byrddau Diogelu Oedolion Rhanbarthol

Ionawr 2018

Croeso i'r
cylchlythyr a'r
uned fusnes
newydd

Adolygiad o'r
Digwyddiadau
Ymgysylltu
Gweithdrefnau
Diogelu Cymru
Gyfan

Gweithdai dysgu
AAP/AAO

Wythnos Diogelu
2017



Lansio'r Wefan

Croeso...

...i Gylchlythyr cyntaf y Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Bydd y cylchlythyr hwn yn cael ei anfon bob tri mis a'r nod yw cyflwyno gwybodaeth i asiantau, aelodau'r bwrdd a'r cyhoedd am y gwaith y mae'r byrddau yn ei wneud. Yn y dyfodol, os oes unrhyw beth yr hoffech weld ei drafod yn y cylchlythyr cysylltwch â'r Uned Fusnes ar 02922 330880 neu dros e-bost at caerdyddabromorgannwgbd@caerdydd.gov.uk.

Mae'r Byrddau newydd benodi Uned Fusnes newydd i hwyluso'r gwaith, ac mae'r tîm yn cynnwys y Rheolwr Busnes Kate Bishop, y Cydlynnydd Busnes Oedolion Nicola Jones, Cydlynnydd Busnes Plant, Ben Davies, a'r Gweinyddwr, Zoe Shioda. Dyma lun ohonynt...



Aelodau'r bwrdd Alys Jones, Irfan Alam, Jason Redrup a'r Rheolwr Busnes Kate Bishop yn ymuno â Dr Hassan a Gyngor Mwslemaidd Cymru ac aelodau o'r gymuned Fwslemaidd leol yn lansiad y Polisi Mosgiau

I gysylltu â'r Uned Fusnes
ffoniwch
02922 330880
neu e-bostiwch
caerdyddabromorgannwgbd@caerdydd.gov.uk

Gweithdai Dysgu Adolygiadau Arferion Plant ac Oedolion (AAP/AAO)

Mae'r gwaith o gomisiynu Adolygiadau Arferion Plant yng Nghaerdydd a'r Fro ac mewn rhannau eraill o Gymru wedi arwain at nifer o themâu amlwg sydd angen ein sylw. Felly, mae'r Is-grŵp AAO/AAP wedi lansio ei raglen o Weithdai Dysgu er mwyn ymgysylltu â staff rheng-flaen drafod y themâu hyn.

Mae'r gweithdai hyn ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol o bob asiantaeth partner a bydd y rhaglen ar gael ar ein gwefan
<https://www.cardiffandvalersb.co.uk/cy/>.

Adolygiad o Ddigwyddiadau Ymgysylltu Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan

Mae Byrddau Diogelu Caerdydd a'r Fro yn cymryd yr awenau, ynghyd â'r Athro Jan Horwath, yn y gwaith o Adolygu Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.

Yn ystod mis Tachwedd, aeth y tîm i ymweld â phob ardal yng Nghymru i gynnal Digwyddiadau Ymgysylltu i ddod o hyd i arfer da a'r problemau yr oedd ymarferwyr yn eu hwynebu er mwyn ceisio eu datrys nhw gyda'r gweithdrefnau newydd.

Mae hyn ar-lein ar gael i roi Gwybodaeth ddiweddar i chi am gynnydd gyda'r adolygiad. Cewch fynediad at yr hyb yma. Os ydych yn cael trafferth wrth gofrestru cysylltwch â Benjamin.davies@caerdydd.gov.uk.

Lansiad y Wefan Newydd!

Mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro'n falch o gyhoeddi lansiad eu gwefan newydd: <https://www.cardiffandvalersb.co.uk/cy/>

Mae'r wefan wedi'i dylunio gyda thudalen gartref lle bydd y bobl sy'n mynd ar y safle yn gallu dewis mynd ar wefan y Bwrdd Diogelu Plant neu'r Bwrdd Diogelu Oedolion.

Bydd y wefan yn cynnig ystod o wybodaeth, cyngor a chanllawiau i blant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a'r cyhoedd. Mae hefyd rhan benodol ar y wefan i weithwyr proffesiynol.

Mae'r safle'n amlinellu gwaith y Byrddau Diogelu. Mae gwybodaeth a chyngor ar gael hefyd ar sut i amddiffyn plant a phobl ifanc sydd mewn perygl ac i adrodd am unrhyw bryderon.

Bydd y wefan yn cael ei diweddarau'n rheolaidd gyda'r newyddion diogelu diweddaraf. Rydym yn edrych ymlaen at glywed eich adborth ar y wefan newydd. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ar sut gallwn wella'r wefan hon, rhowch wybod i ni drwy gysylltu â'r Uned Fusnes @ caerdyddabromorgannwgbd@caerdydd.gov.uk



Cynhaliwyd Wythnos Ddiogelu Cenedlaethol ar 13-17 Tachwedd 2017.

Prif ffocws yr wythnos oedd darparu digwyddiadau codi ymwybyddiaeth ar nifer o themâu diogelu amrywiol mewn perthynas ag Ymgysylltu â'r Gymuned, Caethwasiaeth Fodern, Iechyd Meddwl a Gwydnwch, Camdriniaeth a Chamfanteisio Ar-lein a Chamdrin Domestig. Ategwyd hefyd y neges ei bod yn gyfrifoldeb ar bawb i ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed!

Dechreuodd yr wythnos gyda Chynhadledd arbennig, a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB) o'r enw "Diogelu mewn Chwaraeon – Cymryd Cyfrifoldeb – Cymryd Camau".

Cynhaliwyd y Gynhadledd yn Stadiwm y Principality, Caerdydd a chafodd ei hagor gan y Weinidog y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd. Roedd hefyd nifer o siaradwyr gwadd ysbrydoledig yno.

Lansiodd y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol hefyd Bolisi i Ysgolion Mosg a Lleoliadau Astudiaethau Islamaidd eraill yn ystod yr wythnos, mewn partneriaeth â Chyngor Mwslimaidd Cymru ynghyd â helpu i hyrwyddo lansiad cyhoeddiad CASCADE o'r Adroddiad Adolygiad Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant dan arweiniad Dr Sophie Hallett.

Bydd trefnu ar gyfer Wythnos Diogelu Cenedlaethol 2018 yn dechrau'n gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau neu syniadau am weithgareddau yr hoffech eu cynnwys yn y rhaglen cysylltwch â'r Uned Fusnes ar caerdyddabromorgannwgbd@caerdydd.gov.uk



Cydlynnydd Busnes BDORh, Nicola Jones, gyda Dr Stephen Collishaw o Brifysgol Caerdydd mewn sgwrs a roddodd ar gyfer wythnos Diogelu Cenedlaethol.



Tina Hitt, Uwch Nyrs Diogelu a Gwarchod y Cyhoedd, Canolfan Ganser Felindre a Ben Davies, Cydlynnydd Busnes BDPRh mewn digwyddiad codi ymwybyddiaeth yn Ysbyty Felindre



Dr Sophie Hallett, CASCADE; Jade Harrison yn cynrychioli'r BDPRh; Sam Clutton, Llywodraeth Cymru; Keith Towler; NISB a Dr Eleanor Staples ; CASCADE yn lansiad adroddiad Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant CASCADE